



Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy

Cynllun Iaith Gymraeg

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Cefndir y sefydliad	4
3. Cynllunio a darparu gwasanaethau	5
3.1 Polisiau, deddfwriaeth, gwasanaethau a mentrau	5
3.2 Darparu gwasanaethau	5
3.3 Ein swyddogaethau rheoleiddio - a gwasanaethau a gyflawnir ar ein rhan	5
3.4 Safonau ansawdd	5
4. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	6
4.1 Gohebiaeth	6
4.2 Cyfathrebu dros y ffôn	6
4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus	6
4.4 Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru	7
4.5 Enghreifftiau eraill o ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru	7
5. Ein hwyneb cyhoeddus	8
5.1 Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu	8
5.2 Cyhoeddiadau	8
5.3 Gwefannau	8
5.4 Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiol	9
5.5 Hunaniaeth gorfforaethol	9
5.6 Arwyddion yng Nghymru	9
5.7 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff	9
5.8 Datganiadau i'r wasg a chyswllt gyda'r cyfryngau.....	10
6. Gweithredu'r cynllun hwn	11
6.1 Staffio	11
6.2 Recriwtio	11
6.3 Hyfforddiant iaith	11
6.4 Hyfforddiant galwedigaethol	11
6.5 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	12
6.6 Gweithio mewn Partneriaeth.....	12
6.7 Trefniadau mewnol	12
6.8 Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol.....	12
6.9 Monitro	13
6.10 Adolygu a newid y cynllun	13
6.11 Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella.....	13
7. Prif dargedau ar gyfer cyflwyno'r cynllun	14
Atodiad 1 – System Sgorio	16
Atodiad 2 – Dangosyddion Perfformiad	18

1. Cyflwyniad

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Dyma ein cynllun.

Mae'n disgrifio sut y byddwn, cyn belled â'i fod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd yn Neddf yr Iaith Gymraeg sef y dylid, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal.

Mae'r cynllun yn cwmpasu'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y cynllun hwn, mae'r term **cyhoedd** yn golygu unigolion, unigolion cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei gyfanrwydd, neu ran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd yn dod o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys unigolion sy'n gweithredu mewn rhinwedd sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn unigolion cyfreithiol, yn dod o fewn ystyr y gair *cyhoedd* pan maent yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

Ceir rhagor o wybodaeth am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (www.bwrdd-yr-iaith.org.uk).

Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 23/11/2009.

2. Cefndir y sefydliad

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yw sefydliad cynghori annibynnol y Llywodraeth ar ddatblygu cynaliadwy, yn atebol i'r Prif Weinidog, Prif Weinidogion Cymru a'r Alban a Phrif Weinidog a Dirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon. Drwy eirioli, cynghori ac arfarnu, rydym yn helpu i roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd polisi'r Llywodraeth.

Ar 1 Chwefror 2009, daeth y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (SDC) yn gorff gweithredol anadrannol (NDPB Gweithredol).

Mae'r Comisiwn wedi'i gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau fel Cwmni Cyfyngedig dan Warant, ac mae wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Cabinet fel NDPB Gweithredol. Mae'r Llywodraeth yn berchen yn llwyr arno.

Fel endid cyfreithiol ar wahân, bydd y Comisiwn yn:

- atgyfnerthu ei gylch gwaith fel corff gwarchod a chynghori datblygu cynaliadwy Llywodraeth y DU;
- cael mwy o ryddid i wneud penderfyniadau dros staffio ac arian;
- parhau i gael cydberthynas waith agos â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

Roedd y Comisiwn yn NDPB cynghorol yn gynt ac roedd ei ysgrifenyddiaeth yn gweithredu fel rhan graidd o Defra.

Bydd Comisiynwyr arbenigol y Comisiwn yn parhau i gael eu recriwtio fel penodiadau cyhoeddus gan y Prif Weinidog gyda chytundeb y Gweinyddiaethau Datganoledig.

Yn 2005, gwnaeth Strategaeth Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth y DU, Sicrhau'r Dyfodol, gryfhau rôl y Comisiwn i weithredu fel corff gwarchod annibynnol, gan archwilio cynnydd Llywodraeth y DU o ran gweithredu'r strategaeth, a monitro targedau ar waith rheoli cynaliadwy ystad a chaffael cynaliadwy y Llywodraeth. Mae'r Comisiwn yn perfformio rôl archwilio a chynghori debyg ar gyfer Llywodraeth yr Alban, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn yng Nghymru sy'n rhoi cyngor iddi ar bolisiau datblygu cynaliadwy. Mae Gweinidogion Gogledd Iwerddon wrthi'n ystyried cynigion ar gyfer rôl y Comisiwn yng Ngogledd Iwerddon.

Bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig (Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban) i gyd yn berchenogion ar y cyd o'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cyf (Rhif y Cwmni: 6798740).

3. Cynllunio a darparu gwasanaethau

3.1 Polisiâu, deddfwriaeth, gwasanaethau a mentrau

Bydd ein polisiâu, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn.

Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a, lle bynnag y bo'n bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau o ddydd i ddydd. Byddwn yn defnyddio rhestr wirio i sicrhau bod unrhyw wasanaethau neu fentrau newydd yn gyson â'r cynllun hwn a bod staff yn ymwybodol o'r gofynion.

Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd ein dogfennau ymgynghori yn trafod y gydberthynas rhwng yr iaith Gymraeg a'r polisiâu, mentrau a gwasanaethau sydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Pan fyddwn yn cyfrannu at y broses o ddatblygu neu gyflwyno polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd o dan arweiniad sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

3.2 Darparu gwasanaethau

Prif gylch gwaith y sefydliad yw rhoi gwasanaeth cynghori, eiriolaeth a chraffu i'r Llywodraeth. Lle caiff gwasanaethau sy'n berthnasol i'r cyhoedd eu darparu, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fydd ein gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

3.3 Ein swyddogaethau rheoleiddio - a gwasanaethau a gyflawnir ar ein rhan gan drydydd partïon.

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partïon yn gyson â rhannau perthnasol o'r cynllun hwn, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod trydydd partïon yn darparu'r gwasanaethau hynny yn unol â'r cynllun hwn.

3.4 Safonau ansawdd

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a byddant yn cael eu darparu o fewn yr un terfyn amser.

4. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

4.1 Gohebiaeth

Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg (os oes angen ymateb). Bydd ein targed ar gyfer ymateb yr un peth â'r targed ar gyfer ateb llythyrau a ysgrifennir yn Saesneg.

Pan fyddwn yn dechrau gohebiaeth gydag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg pan fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg. Os nad ydym yn sicr o'u dewis iaith, byddwn yn gohebu'n ddwyieithog.

Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg neu'r fersiwn Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yn un pryd.

Bydd dogfennau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, lle y bônt ar gael.

Bydd dogfennau a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, lle y bônt ar gael.

Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth e-bost yn ogystal â gohebiaeth ar bapur.

Bydd pob gohebiaeth Gymraeg a anfonir gennym ar ffurf copi caled wedi'i llofnodi.

Bydd llofnod electronig Cymraeg (neu ddwyieithog) yn ymddangos ar bob gohebiaeth Gymraeg a anfonir gennym o Gymru ar ffurf e-bost.

4.2 Cyfathrebu dros y ffôn

Byddwn yn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu siarad Cymraeg neu Saesneg wrth ddelio â ni dros y ffôn yng Nghymru.

Bydd ein staff sy'n siarad Cymraeg yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog ac yn defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol. Byddwn yn annog gweddill ein staff i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog a defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol.

Os yw'r galwr yn ffonio un o'n llinellau uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond nad yw'r person sy'n ateb yr alwad yn gallu siarad Cymraeg, byddant yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad sy'n siarad Cymraeg.

Os nad oes siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad ar gael, bydd y cwsmer yn cael y dewis, fel y bo'n briodol, o drefnu i siaradwr Cymraeg ei ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r sgwrs yn Saesneg neu anfon eu hymholiad yn Gymraeg, drwy lythyr neu drwy e-bost.

Oherwydd eu lleoliad ni fyddai'n ymarferol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal sgysiau dros y ffôn yn Gymraeg.

4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithiad dilynol o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru oni bai ein bod wedi sefydlu bod pob un sy'n cymryd rhan yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.

Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog a byddant naill ai'n nodi bod cyfleusterau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i'n hysbysu ymlaen llaw o'u dewis iaith.

Byddwn yn hysbysu'r rheini sy'n mynd i gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael ac yn annog cyfraniadau yn Gymraeg.

Byddwn yn darparu papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn sicrhau y caiff adroddiadau a phapurau a gynhyrchir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg.

Wrth ddewis staff i fynd i gyfarfodydd cyhoeddus, byddwn yn sicrhau y bydd siaradwyr Cymraeg cymwys yn mynd, fel y bo angen.

4.4 Cyfarfodydd eraill gyda'r cyhoedd yng Nghymru

Pan fyddwn yn trefnu neu'n mynd i gyfarfodydd preifat gyda'r cyhoedd, byddwn yn cadarnhau eu dewis iaith ar y cyfle cynharaf posibl ac yn sicrhau bod aelod cymwys o staff sy'n siarad Cymraeg yn delio â'r rheini y byddai'n well ganddynt siarad Cymraeg.

Os nad oes unrhyw siaradwr Cymraeg sy'n meddu ar gymwysterau addas ar gael, byddwn yn cynnig y dewis o barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ddelio â'r pwnc drwy ohebu yn Gymraeg.

Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i gyfarfodydd a gynhelir drwy ddefnyddio offer fideo gynadledda ac offer tebyg.

Oherwydd eu lleoliad ni fyddai'n ymarferol i staff yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.5 Enghreifftiau eraill o ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru

Pan fyddwn yn cynnal **arolygon cyhoeddus yng Nghymru neu rai sy'n berthnasol i Gymru**, byddwn yn sicrhau bod pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.

Gofynnir i ymatebwyr a fyddai'n well ganddynt ateb yr arolwg yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Pan fyddwn yn trefnu **seminarau, cyrsiau hyfforddi** neu ddigwyddiadau tebyg ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg. Wrth gynnal yr asesiad hwn, byddwn yn ystyried dewis iaith y rheini sy'n mynychu ac a oes hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael.

Byddwn yn sicrhau y gwneir cyhoeddiadau dros **systemau sain** yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

5. Ein hwyneb cyhoeddus

5.1 Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

Bydd yr holl gyhoeddusrwydd, gwybodaeth i'r cyhoedd, arddangosfeydd a deunydd hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru (er mwyn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol) yn gwbl ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a byddant yr un mor hygyrch.

Bydd hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Mewn cyhoeddiadau iaith Gymraeg, bydd yr hysbysebion yn Gymraeg yn unig.

Bydd hysbysebion teledu, sinema, band-eang a radio yn Saesneg ac yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd ar y teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglenni Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg.

Byddwn yn osgoi defnyddio is-deitlau iaith Gymraeg, neu ddybio hysbysebion i'r Gymraeg (ac eithrio trosleisio).

Bydd llinellau ymateb dros y ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu byddant yn cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.

Bydd unrhyw arddangosiadau clyweledol, teithiau sain neu gyfryngau rhyngweithiol a baratown yn ddwyieithog, pan gânt eu defnyddio yng Nghymru.

Pan fyddwn yn staffio stondinau arddangosfeydd ac arddangosiadau yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg sy'n meddu ar gymwysterau addas ar gael, fel y bo angen.

5.2 Cyhoeddiadau

Byddwn yn cyhoeddi deunyddiau sydd ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog, yn unol â'r system sgorio yn Atodiad 1, gyda'r fersiynau Saesneg a Chymraeg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.

Os bydd yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai dogfen unigol yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd - byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'u bod yr un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Os na fyddant ar gael am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na chyhoeddiad mewn un iaith - a bydd pris y fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un peth.

Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i ddeunydd sydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu fel arall.

5.3 Gwefannau

Mae gwefan Cymru yn Saesneg ac yn Gymraeg gan y Comisiwn. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae'r safleoedd Saesneg a Chymraeg yn cael eu diweddarau gyda'i gilydd bob amser fel bod y cynnwys yr un fath yn y ddwy iaith. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwefan Cymru'n gwbl ddwyieithog.

Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ail-ddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried *Canllawiau Meddalwedd Dwyieithog a Safonau* Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac unrhyw ganllawiau eraill y mae'r Bwrdd wedi'u cyhoeddi ynglŷn â datblygu gwefannau.

Pryd bynnag y byddwn yn rhoi cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefan, bydd y fersiynau Cymraeg eu cael eu rhoi ar yr un pryd, os byddant ar gael.

5.4 Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiol

Byddwn yn sicrhau y bydd pob ffurflen at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau. Bydd deunydd eglurhaol cysylltiol yn gwbl ddwyieithog yn amodol ar ein system sgorio ar gyfer cyhoeddiadau.

Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle byddai un ddogfen yn rhy hir neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd - a byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'u bod yr un mor hygyrch. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Pan fyddwn *ni* yn rhoi gwybodaeth ar fersiynau Cymraeg o ffurflenni a gaiff eu hanfon at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.

Pan fyddwn *ni* yn rhoi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog sy'n cael eu hanfon at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bobl dderbyn y wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.

Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

5.5 Hunaniaeth gorfforaethol

Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, manylion cyswllt, logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr holl ddeunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys ein deunydd ysgrifennu - a deunydd fel cardiau busnes, bathodynau adnabod, cardiau, tocynnau, cardiau cydnabod, slipiau cyfarch, gwahoddiadau a cherbydau.

Efallai byddwn yn defnyddio brandiau Cymraeg yn unig ar gyfer rhai mentrau.

5.6 Arwyddion yng Nghymru

Byddwn yn sicrhau bod bob un o'n harwyddion parhaol a'n harwyddion dros dro, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ddwyieithog gyda'r testun Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.

Byddwn yn cadw at yr arfer hwn pryd bynnag y bydd arwyddion yn cael eu gosod am y tro cyntaf, neu pryd bynnag y byddwn yn ailosod arwyddion.

Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

Bydd yr uchod yn berthnasol i bob math o arwyddion, gan gynnwys arwyddion electronig.

Eithriad i'r uchod fydd arwyddion a gaiff eu defnyddio mewn digwyddiadau fel eisteddfodau yng Nghymru lle na fydd ond arwyddion Cymraeg ar gael, o bosibl.

5.7 Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau iaith Gymraeg.

Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd pa un a ydynt yn cael eu cynhyrchu fel fersiwn dwyieithog unigol, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Yn y cyfryngau iaith Saesneg, efallai bydd swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, yn cael eu hysbysebu yn Gymraeg, gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Efallai bydd hysbysiadau recriwtio a roddir mewn cyfnodolion iaith Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) sy'n cael eu dosbarthu ledled y DU yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ac os felly,

gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gydag esboniad byr yn Saesneg.

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a osodir yn rhywle arall yng Nghymru yn ddwyieithog.

5.8 Datganiadau i'r wasg a chyswllt gyda'r cyfryngau

Bydd datganiadau i'r wasg a datganiadau i'r cyfryngau darlledu iaith Gymraeg yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg lle bo terfynau amser yn caniatáu hynny, a hefyd yn ystyried dewis iaith y sefydliadau cyfryngol a fydd yn eu derbyn.

Pan fyddwn yn rhoi datganiadau i'r wasg ar ein gwefan, byddwn yn eu rhoi yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n berthnasol a lle y cânt eu defnyddio yng Nghymru.

Ein nod yw sicrhau y bydd siaradwyr Cymraeg ar gael i wneud cyfweiliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gomisiynydd sy'n gallu gwneud hyn. Bydd aelodau o'r ysgrifenyddiaeth sy'n siarad Cymraeg yn cynnal cyfweiliadau yn Gymraeg pan fo'n briodol.

Mae comisiynwyr yn benodiadau cyhoeddus, ac ar hyn o bryd nid oes un comisiynydd yn gallu siarad Cymraeg. Wrth benodi Comisiynwyr yn y dyfodol, bydd eu gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn rhan o'r broses.

6. Gweithredu'r cynllun hwn

6.1 Staffio

Yng Nghymru, mae gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy chwe aelod o staff ar hyn o bryd. Mae angen staff sy'n siarad Cymraeg sy'n meddu ar sgiliau digonol a phriodol ar bob un o'n gweithleoedd sydd mewn cysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth lawn yn Gymraeg. Bydd y gweithdrefnau canlynol yn cael eu gweithredu yn unol â hynny:

O bryd i'w gilydd, byddwn yn cynnal archwiliadau i sefydlu nifer yr aelodau o staff sy'n gallu siarad Cymraeg, darllen Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg, lefel eu gallu a'u lleoliad (gan gynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg). Byddwn hefyd yn nodi enwau staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

Bydd canlyniadau'r ddau ymarfer hyn yn cael eu cymharu er mwyn nodi gweithleoedd lle mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg.

Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder o ran staff sy'n siarad Cymraeg drwy ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi.

Byddwn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o roi'r cyfle i staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd lenwi'r swyddi hyn lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol.

6.2 Recriwtio

Wrth recriwtio staff, byddwn yn cael ein harwain gan y wybodaeth a gasglwyd drwy ddilyn y gweithdrefnau a ddisgrifir o dan *Staffio* uchod.

Pan fo rhuglder yn y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, caiff hyn ei nodi mewn cymwysterau a hysbysebion swyddi.

Yn y dyfodol, bydd y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg o leiaf yn 'ddymunol' ar gyfer pob swydd yng Nghymru, ac eithrio swydd Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, lle bydd yn hanfodol.

Pan na ellir dod o hyd i unrhyw ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae Cymraeg yn *hanfodol* (neu bod ymgeisydd wedi cael ei benodi er nad yw'n siarad Cymraeg a'i fod yn dysgu'r iaith) byddwn yn gwneud trefniadau

dros dro lle gellir darparu'r gwasanaeth iaith Gymraeg (drwy ddefnyddio, er enghraifft, staff sy'n siarad Cymraeg o rywle arall yn ein sefydliad i ddarparu rhannau o'r gwasanaeth).

Darperir pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gyfer pob un o'n swyddi lle ystyrir bod rhuglder yn y Gymraeg i fod yn ddymunol neu'n hanfodol.

Ar gyfer pob swydd sy'n berthnasol i Gymru, ond sydd wedi eu lleoli mewn man arall, caiff pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais eu darparu yn Gymraeg ar gais yr ymgeisydd swydd.

Ar gyfer ein swyddfeydd y tu allan i Gymru, ar gyfer unrhyw swyddi sy'n dod i gysylltiad helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried pa un a ddylai rhuglder yn y Gymraeg fod yn sgil ddymunol neu'n sgil hanfodol – a bydd hyn yn cael ei ddatgan mewn cymwysterau a hysbysebion swyddi.

6.3 Hyfforddiant iaith

Byddwn yn annog ein staff i ddysgu neu wella eu Cymraeg - a byddwn yn cefnogi'r rheini sy'n dymuno gwneud hynny. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sy'n dod i gysylltiad helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd, neu sy'n delio â siaradwyr Cymraeg yn rheolaidd fel rhan o'u gwaith.

Byddwn yn ariannu'r hyfforddiant hwn ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod gwaith.

Ar gyfer ein swyddfeydd y tu allan i Gymru, byddwn yn cefnogi ac yn ariannu hyfforddiant i staff sy'n dod i gysylltiad helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o'u dyletswyddau - ac sy'n dymuno dysgu Cymraeg, neu'n dymuno gwella eu Cymraeg.

Byddwn yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod gwaith.

6.4 Hyfforddiant galwedigaethol

Byddwn yn meithrin gallu ein staff sy'n siarad Cymraeg i weithredu yn Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, lle bynnag y bo'n ymarferol.

Ar gyfer ein swyddfeydd y tu allan i Gymru, lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn darparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg i feithrin gallu staff sydd, fel rhan o'u dyletswyddau, yn dod i gysylltiad helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru.

6.5 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Byddwn yn darparu ar gyfer yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, ac yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, wrth i ni ddatblygu, cynllunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol er mwyn sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yng Nghymru - ac yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

Wrth i ni ddatblygu neu gael systemau TGCh newydd byddwn yn ystyried *Canllawiau Meddalwedd Dwyieithog a Safonau'r Bwrdd*.

6.6 Gweithio mewn Partneriaeth

Pan fyddwn yn gweithredu fel yr arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein cyfraniad i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.

Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

6.7 Trefniadau mewnol

Staff Comisiwn Datblygu Cynaliadwy'r DU, a leolir yn Llundain, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gymeradwyo a gweithredu'r cynllun.

Rhoddir **awdurdod**, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad i'r mesurau yn y cynllun hwn.

Bydd gweithredu yn unol â'r cynllun yn fater o **gydymffurfio**.

Bydd gan reolwyr y **cyfrifoldeb** o weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

Byddwn yn penodi uwch aelod o staff i **gydgysylltu'r** gwaith sy'n ofynnol i ddarparu, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

Bydd y cynllun yn cael ei **gyhoeddi** i'n staff, ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn lle amlwg.

Byddwn yn creu **cyfarwyddiadau desg**, neu ganllawiau tebyg, er mwyn i'n staff sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.

Bydd cyfarwyddiadau desg sy'n bodoli eisoes, neu ganllawiau tebyg a ddefnyddir gan ein staff yn cael eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.

Byddwn yn trefnu sesiynau **briffio a hyfforddi** i'n staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o'n cynllun - ac i egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Lle y bo'n briodol, byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio **cyfieithwyr** neu ddehonglwyr cymwys i gyfieithu deunydd electronig ac argraffedig - ac ar gyfer cyfieithu ar y pryd. Byddwn yn disgwyl i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad tebyg.

Bydd **unrhyw fath o gyswilt** gyda'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'r cynllun hwn yn delio'n benodol ag ef, yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a geir yn y cynllun hwn.

6.8 Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Byddwn yn gweithredu yn unol â chynghor y Bwrdd ar *Ddeddf yr Iaith Gymraeg, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol*.

Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn eu cyfieithu i ddewis iaith yr ymgeisydd ar yr amod bod nifer y geiriau y mae angen eu cyfieithu yn llai na 150.

6.9 Monitro

Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflwyno'r cynllun hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion perfformiad yn Atodiad 2. Byddwn yn cyflwyno adroddiadau i'r uwch dîm rheoli ar y cynnydd hwnnw.

Bydd ein gweithdrefnau monitro a chyflwyno adroddiadau presennol yn cynnwys cyfeirio at gynnydd o ran cyflwyno'r cynllun, fel y bo'n briodol.

Byddwn yn cyflwyno adroddiadau i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ein cynnydd wrth gyflwyno'r cynllun hwn a'r dangosyddion perfformiad yn Atodiad 2.

Ein targed yw sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â nodau ac amcanion y cynllun hwn o fewn tair blynedd iddo ddod i rym.

6.10 Adolygu a newid y cynllun

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn tair blynedd iddo ddod i rym.

Hefyd, o bryd i'w gilydd, efallai bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig newidiadau i'r cynllun hwn, yn sgîl newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau y byddwn yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny oddi tanynt, neu am unrhyw reswm arall.

Ni wneir unrhyw newid i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.11 Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

Dylid anfon cwynion sy'n gysylltiedig â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwella, at yr uwch aelod o staff sydd â chyfrifoldeb am y cynllun, yn y cyfeiriad canlynol:

Comisiwn Datblygu Cynaliadwy Cymru,
Ystafell 1 Prifysgol Cymru,
Rhodfa'r Brenin Edward VII,

Caerdydd CF10 3NS

Neu drwy e-bost i: Wales@sd-commission.org.uk

Byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd er mwyn datrys cwynion - ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg

7. Prif dargedau ar gyfer cyflwyno'r cynllun

Byddwn yn trefnu sesiynau **briffio a hyfforddi** i'n staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn - ac i egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.

Lle y bo'n briodol, byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio **cyfieithwyr** neu ddehonglwyr cymwys i gyfieithu deunydd electronig ac argraffedig lle y bo'n briodol - ac ar gyfer cyfieithu ar y pryd. Byddwn yn disgwyl i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad tebyg.

Bydd **unrhyw fath o gyswllt** gyda'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'r cynllun hwn yn delio'n benodol ag ef, yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddorion cyffredinol a geir yn y cynllun hwn.

Targed	Dyddiad Cwblhau
Gwefan Rydym yn ymrwmo i wneud safle Cymru'n gwbl ddwyieithog. Byddwn yn cytuno beth sy'n ofynnol ei fod ar gael yn Gymraeg ar safle'r DU.	31/3/2010
Sgiliau staff Cynnal archwiliad i ddarganfod ble mae angen sgiliau yn yr iaith Gymraeg arnom a pha aelodau o staff sydd eisoes yn siarad Gymraeg. Paratoi strategaeth i wneud unrhyw gamau angenrheidiol.	31/6/2010
Ymwybyddiaeth staff Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi i'n staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn - ac i egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd. Byddwn yn paratoi deunyddiau ar gyfer sesiynau ymsefydlu i staff newydd sy'n cyfeirio at y cynllun iaith Gymraeg.	31/9/2010
Cyfarwyddiadau desg Creu neu olygu cyfarwyddiadau desg	31/9/2010

presennol i gynnwys yr iaith Gymraeg, fel y disgrifir yn y cynllun.	
Hyfforddiant iaith Gymraeg Cynnig hyfforddiant iaith Gymraeg i'n staff yng Nghymru.	31/12/2010
Uwch gydgyssylltydd Byddwn yn penodi uwch aelod o staff i gydgyssylltu'r gwaith sy'n ofynnol i ddarparu, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.	31/3/2010
Cyhoeddi'r cynllun Bydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn lle amlwg.	31/3/2010
Cyfieithwyr a dehonglwyr Byddwn yn paratoi rhestr o gyfieithwyr neu ddehonglwyr cymwys ac yn ei dosbarthu i'n staff. Byddwn yn disgwyl i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru neu sefydliad tebyg.	31/6/2010

Atodiad 1 – System Sgorio

1. Nifer y copïau i'w hargraffu bob blwyddyn i'w defnyddio yng Nghymru:	
1 – 500	Sgôr=1
500 – 5,000	2
dros 5,000	4
2. Y gynulleidfa darged (uniongyrchol neu anuniongyrchol¹) neu statws².	
Y cyhoedd (neu statws uchel)	15
Y llywodraeth, ond â diddordeb cyhoeddus tebygol (neu statws canolig)	10
Unigolion sy'n cynrychioli meysydd penodol (neu statws isel)	0
3. A fydd y cyhoeddiad yn berthnasol i bwnc penodol neu ran o Gymru â diddordeb arbennig o safbwynt y Gymraeg? Er enghraifft, gwaith yn cynnwys pobl ifanc, yr henoed, amaethyddiaeth, addysg, chwaraeon neu'r celfyddydau - neu a fydd wedi ei anelu'n unig at ardaloedd sydd â chanran neu nifer uchel o siaradwyr Cymraeg.	
Bydd	10
Na fydd	0
4. Am ba hyd fydd y cyhoeddiad yn cael ei ddefnyddio? (Ni ddylai ailargraffu'r cyhoeddiad; newidiadau bach fel newid y flwyddyn ar ben y cyhoeddiad, neu newid rhan o'r cyhoeddiad i adlewyrchu rheolau newydd, gael eu hystyried fel diwedd oes yr hen fersiwn. Fodd bynnag, os yw'r cyhoeddiad yn ddogfen ymgynghori, dylid anwybyddu'r cwestiwn hwn ac ateb cwestiwn 7 yn ei le (oherwydd natur a statws arbennig y dogfennau hynny):	
0 – 6 mis	1
6 mis – 2 flynedd	2
Dros 2 flynedd	4
5. Nifer geiriau yn y cyhoeddiad:	
0-1000	4
1000-5000	2
Dros 5000	1
6. Amcangyfrif gorau o nifer y tudalennau <i>mewn fersiwn un iaith</i> o'r cyhoeddiad:	
1-10	4
10-20	2
Dros 20	1
7. (Cwestiwn ar gyfer dogfennau ymgynghori yn unig). Delio gyda phwnc sy'n:	
Arbenigol / technegol iawn	1
Eithaf cymhleth ond o ddiddordeb i lawer	2
Hawdd ei ddeall / o ddiddordeb cyffredinol	4

¹ Er enghraifft, efallai bydd dogfen yn cael ei chyhoeddi gennych ar gyfer corff cyhoeddus arall, ond gyda'r bwriad o drosglwyddo'r cynnwys i'r cyhoedd.

² Er enghraifft, a fydd hi'n ddogfen allweddol, yn ganolog i'ch perthynas â'ch rhanddeiliaid yng Nghymru? Neu a fydd hi'n denu cryn sylw gan y cyfryngau yng Nghymru? Dylid rhoi'r pwyntiau uchaf posib. Er enghraifft, dylai dogfen sydd wedi ei hanelu at unigolion sy'n cynrychioli meysydd penodol, ond gyda statws uchel, dderbyn 15 pwynt, nid 0 pwynt.

Dylid adio'r sgorau a'u cymharu â'r canlynol:

Penderfynu ar fersiwn papur o'r cyhoeddiad:

0-14: dim angen paratoi fersiwn Cymraeg

15-18: mae'r sgôr hwn yn awgrymu y dylid paratoi fersiwn Cymraeg, (ond os na wneir hynny, dylid paratoi crynodeb yn Gymraeg yn ei le)

dros 18: angen paratoi fersiwn Cymraeg

Penderfynu ar fersiwn electronig o'r cyhoeddiad (i'w gynnwys ar wefan y corff ac ati).

Anwybyddwch gwestiynau 1 a 6 wrth i chi gyfrifo'r sgôr hwn:

0-11: dim angen paratoi fersiwn Cymraeg

12-18: mae'r sgôr hwn yn awgrymu y dylid paratoi fersiwn Cymraeg, (ond os na wneir hynny, dylid paratoi crynodeb yn Gymraeg yn ei le)

dros 14: angen paratoi fersiwn Cymraeg

Atodiad 2 – Dangosyddion Perfformiad

Gwasanaethau Rheng flaen
WLI 1 Nifer a % y swyddi sydd wedi eu dynodi fel 'Cymraeg yn hanfodol' neu 'Cymraeg yn ddymunol' ac wedi eu llenwi gan staff sy'n ddwyieithog.
Adnoddau Dynol sgiliau
WLI 2 Nifer a % y staff sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn Cymraeg i lefel cymhwyster penodol
Adnoddau Dynol – Cydraddoldeb ac amrywiaeth
WLI 3 Nifer a % y staff yng Nghymru o fewn gwasanaethau'r sefydliad sy'n gallu siarad Cymraeg <i>Bydd gallu yn y Gymraeg yn seiliedig ar feini prawf hunan ddewis y cyfrifiad.</i>
Safon gwasanaethau iaith Gymraeg
WLI 4 Nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â <u>gweithredu'r Cynllun Iaith</u> a'r % y deliwyd â hi yn unol â safonau corfforaethol y sefydliad.
Defnyddio gwasanaethau iaith Gymraeg
WLI 5 Nifer y trawiadau ar wefan Gymraeg Cymru o'i gymharu â'r nifer ar wefan Saesneg Cymru.